



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich Cyf/Your Ref:
Ein cyf/Our Ref:
Dyddiad/Date: 28 Hydref 2015

Annwyl Syr/Madam,

DEDDF PRIFFYRDD 1980

**GORCHYMYN CEFNFFORDD ABERTAWA I FANCEINION (YR A483) A
CHEFNFFORDD Y DRENEWYDD I ABERYSTWYTH (YR A489) (FFORDD OSGOI'R
DRENEWYDD A THYNNU STATWS CEFNFFORDD) 201-**

**GORCHYMYN CEFNFFORDD ABERTAWA I FANCEINION (YR A483) A
CHEFNFFORDD Y DRENEWYDD I ABERYSTWYTH (YR A489) (FFYRDD YMYL
FFORDD OSGOI'R DRENEWYDD) 201-**

**GORCHYMYN PRYNU GORFODOL GWEINIDOGION CYMRU (CEFNFFORDD
ABERTAWA I FANCEINION (YR A483) A CHEFNFFORDD Y DRENEWYDD I
ABERYSTWYTH (YR A489) FFORDD OSGOI'R DRENEWYDD) 201-**

**PENDERFYNIAD AR ASESIAD EFFAITH AMGYLCHEDDOL O DAN RAN VA O
DDEDDF PRIFFYRDD 1980**

**RHEOLIADAU CADWRAETH CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU 2010 -
RHEOLIAD 61: ASESIAD O'R GOBLYGIADAU AR GYFER SAFLEOEDD
EWROPEAIDD**

Y TREFNIADAU DIRPRWYO

1. Mae'r swyddogaeth o benderfynu a ddylid gwneud y Gorchmynion uchod wedi ei throsglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno. Mae'r penderfyniad yn rhan o gyfrifoldeb Edwina Hart MBE, CStJ, AM, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ("y Gweinidog"), un o Weinidogion Cymru.



BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Richard Morgan
Llinell Union. Direct Line: 029 2082 6450
E-bost. E-mail: RichardS.Morgan@wales.gsi.gov.uk

Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Cathays Park
Cardiff
CF10 3NQ

CYFLWYNIAD

2. Cynhaliwyd Ymchwiliad Cyhoeddus (yr Ymchwiliad) i'r Gorchmynion drafft uchod ac i'r sylwadau ar y Datganiad Amgylcheddol rhwng 25 Mehefin 2015 a 15 Gorffennaf 2015. Yr Arolygydd oedd Mr W S C Wadrupe BEng (Hons), CEng, MICE, FCIHT.

YR AMODAU PRESENNOL

3. Mae Cefnffyrdd yr A483 ac A489 yn y Drenewydd yn ffurfio rhan o'r coridorau traffig strategol gogledd-de a dwyrain-gorllewin trwy Gymru. Maent yn cwrdd â'i gilydd fel cerbyffyrdd sengl yn y Drenewydd gan greu man cyfyng ar gyfer traffig trwodd, achosi oedi i'r holl draffig a rhwystrau i feicwyr a cherddwyr. Mae yno saith cyffordd â signalau a dwy gylchfan sydd hefyd yn gwasanaethu 3 ystad ddiwydiannol a safleoedd manwerthu helaeth. Nid oes unrhyw gyfleoedd i oddiwedd ar hyd y 6.1 km o gefnffordd drwy'r dref; mae'r cyflymderau cyfartalog oddeutu 20mya a thagfeydd yn gyffredin yn ystod oriau brig ac ar yr adegau pan hebryngir plant yn ôl a blaen o'r ysgolion.

4. Mae rhai o'r prif broblemau a brofir yn y Drenewydd yn digwydd oherwydd lled cyfyng a diffyg uchder y trosbontydd rheilffordd ar yr A483 yn Ffordd Dolfor a'r A489 yn Nantoer, tagfeydd ar hyd yr A483 yn New Road, a chroestynnu rhwng anghenion cerddwyr a cherbydau ar yr A483 yn y gyffordd rhwng yr A483 Ffordd Dolfor a'r A489 Ffordd Llanidloes.

5. Er mwyn osgoi'r pontydd isel, rhaid i gerbydau nwyddau a cherbydau amaethyddol uchel ailgyfeirio drwy'r ardaloedd preswyl Garth Owen a Threowen. Mae hyn yn ei dro yn peryglu diogelwch preswylwyr lleol, ac yn enwedig y plant sy'n mynychu ysgolion Treowen a Chedewain.

Y CYNLLUN ARFAETHEDIG

6. Hyd y Cynllun fyddai 6.53km, gan gynnwys 5.8km o Ffordd Lydan Sengl 2+1. Drwy ddarparu dwy lôn i un cyfeiriad ac un i'r gwrthwyneb, byddai'r cynllun yn darparu cyfleoedd i oddiwedd yn ddiogel. Rhwng y lonydd i'r ddau gyfeiriad gosodid llinellau gwyn solet dwbl, 1m ar wahân, gyda chroeslinellau rhesog ar arwyneb coch rhyngddynt. Yn ychwanegol, darperid cefnffyrdd unffrd fel a ganlyn: 0.3km yn y derfynfa orllewinol, 0.1km yn y derfynfa ddwyreiniol a 0.11km yn Ffordd Dolfor er mwyn cysylltu'r Cynllun â'r rhwydwaith Cefnffyrdd presennol.

7. Byddai pum cyffordd gylchfan un-lefel hefyd yn cael eu darparu, yn ogystal â 2.7km o ffyrdd ymyl unffrd, newydd neu wedi eu gwella. Ar hyd y ffordd osgoi, byddai goleuadau yn cael eu gosod ar y cylchfannau yn unig. Darperid Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Mynedfeydd Preifat newydd neu ailgyfeiriedig, i gymryd lle unrhyw rai yr effeithid arnynt gan y Cynllun.

Y GORCHMYNION

8. Cyhoeddwyd Gorchmynion Llinell a Ffyrd Ymyl (GFfY) drafft ar 28 Tachwedd 2014, a chyhoeddwyd y Gorchmyn Prynu Gorfodol (GPG) drafft ar 9 Ionawr 2015. Pe byddid yn eu gwneud, byddent yn awdurdodi: adeiladu darnau newydd o

gefnffordd; tynnu statws cefnffordd oddi ar y gefnffordd bresennol; cau priffyrdd a'u gwella; cau mynedfeydd preifat a darparu mynedfeydd preifat newydd; caffael y tir a'r hawliau sydd eu hangen ar gyfer adeiladu'r gefnffordd newydd a'i chynnal yn y dyfodol; gwneud gwaith cysylltiedig ar ffyrdd ymyl; gwneud gwaith atodol a gweithredu mesurau i liniaru'r effaith ar yr amgylchedd.

Y DATGANIAD AMGYLCHEDDOL

Ymgynghori

9. Cyhoeddwyd y Datganiad Amgylcheddol (DA) ar 28 Tachwedd 2014, yn unol â Rhan VA o Ddeddf Priffyrdd 1980 (fel y'i diwygiwyd) a Chyfarwyddeb 2011/92/EU yr UE.

10. Cyhoeddwyd "Datganiad i Oleuo Asesiad Priodol" ("DOAP"), a oedd yn asesu goblygiadau'r Cynllun i'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) a materion cysylltiedig, yr un pryd â Gorchmynion Llinell a Ffyrdd Ymyl drafft ar gyfer y Cynllun ar 28 Tachwedd 2014, yn unol â'r Chyfarwyddebau Ewropeaidd a Rheoliadau'r DU.

11. Yn unol ag adran 105B o Ddeddf Priffyrdd 1980 a rheoliad 61 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 ac Erthygl 6(3) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd 92/43/EC, gosodwyd Hysbysiadau Cyhoeddus yn y *London Gazette* a'r *County Times* ar 28 Tachwedd 2014, i'r perwyl bod penderfyniad wedi ei wneud y byddai'r Cynllun yn ddarostyngedig i'r Asesiad Effaith Amgylcheddol a gyhoeddwyd ar y dyddiad hwnnw, ac yn gwahodd sylwadau ar y DA a'r DOAP erbyn 23 Ionawr 2015. Gosodwyd yr Hysbysiadau a'r holl ddogfennau cysylltiedig ar adnau, ac anfonwyd hwy hefyd, ynghyd â'r Crynodeb Annhechnegol, at y rhestr o dderbynwyr statudol ac anstatudol yn Atodiad A.

LLEOLIADAU ADNEUO

12. Rhoddwyd copïau o'r Gorchmynion drafft, DA, CA and DOAP, ar gael i'w harchwilio yn y manau canlynol:

- i. Y Gangen Gorchmynion,
Trafnidiaeth,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd CF10 3NQ.
- ii. Swyddfeydd Llywodraeth Cymru,
Tŷ Ladywell,
Y Drenewydd,
Powys SY16 1JB;
- iii. Cyngor Sir Powys,
Neuadd y Sir,
Llandrindod,
Powys, LD1 5LG;
- iv. Cyngor Sir Powys,
Neuadd Maldwyn,

Ffordd Hafren,
Y Trallwng,
Powys SY21 7AS,

- v. Llyfrgell y Drenewydd,
Park Lane,
Y Drenewydd,
Powys SY16 1EJ.

GWRTHWYNEBIADAU, SYLWADAU A CHEFNOGAETH

13. Erbyn diwedd y Ymchwiliad, roedd 72 o wrthwynebiadau a 7 o sylwadau yn weddill. Roedd 133 mynegiant o gefnogaeth i egwyddor y Cynllun wedi eu gwneud.

ADRODDIAD YR AROLYGYDD

14. Rwyf yn amgáu copi o Adroddiad yr Arolygydd ('yr Adroddiad'), sydd bellach wedi ei ystyried gan y Gweinidog. Er bod crynodeb o gasgliadau'r Arolygydd wedi ei gynnwys yn nes ymlaen yn y llythyr hwn er hwylustod, ni ddylid tybio bod y crynodeb hwnnw'n cymryd casgliadau llawn yr Arolygydd fel y'u cynhwysir yn yr Adroddiad. Mae pob cyfeiriad at rif paragraff yn y llythyr hwn yn gyfeiriad at rif paragraff yn yr Adroddiad oni ddywedir yn wahanol yn benodol. Mae'r llythyr hwn yn datgan penderfyniad y Gweinidog.

15. Mae copïau o'r Adroddiad yr Arolygydd, y llythyr hwn, a'r dogfennau DA ar gael i'w harchwilio hefyd yn y manau adneuo a restrir ym mharagraff 12 o'r llythyr hwn.

16. Mae'r dogfennau a'r planiau, a anfonwyd i mewn gan yr Arolygydd ynghyd â'i Adroddiad ar gael i'w harchwilio yn ystod oriau swyddfa arferol yng Nghangen Gorchmynion Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd. CF10 3NQ.

17. Mae'r Arolygydd wedi trefnu ei Adroddiad fel a ganlyn:

- Adran 2 – materion gweithdrefnol a chyfreithiol;
- Adran 4 – yr achos dros Lywodraeth Cymru ("y Llywodraeth") gan gynnwys y Datganiad Amgylcheddol ac effeithiau amgylcheddol y Cynllun;
- Adran 5 – yr achos dros y cefnogwyr;
- Adran 6 – yr achos dros y gwrthwynebwyr;
- Adran 7 – yr achos dros y rhai a wnaeth sylwadau;
- Adran 8 – ymateb Llywodraeth Cymru i wrthwynebiadau a sylwadau;
- Adran 9 – opsiynau amgen yn lle'r Gorchmynion drafft;
- Adran 10 – casgliadau'r Arolygydd; ac
- Adran 11 – argymhellion yr Arolygydd.

CASGLIADAU'R AROLYGYDD AR FATERION PENODOL

Cyflwyniadau Cyfreithiol

18. Mae'r Arolygydd yn datgan nad yw materion cyfraith yn faterion iddo ef ddyfarnu arnynt, ond er hynny mae'n cofnodi ei asesiad ei hunan ym mharagraffau 10.7 i 10.8. Ynghylch yr honiad nad oes modd i dystion arbenigol Llywodraeth Cymru weithredu'n ddiduedd, cyfeiriodd yr Arolygydd at y Rheolau eglur sy'n llywodraethu

Ymchwiliadau Cyhoeddus i Gynlluniau Priffyrdd, a'r gweithdrefnau hir-sefydlog sy'n ymwneud ag Ymchwiliadau o'r fath. Daw'r Arolygydd i'r casgliad bod pob un o dystion Llywodraeth Cymru yn broffesiynolion cymwysedig; bod eglurder ynghylch eu swyddogaeth; y bu pob un ohonynt yn ddarostyngedig i'w profi'n barhaus drwy eu croesholi, a thrwy gydol yr Ymchwiliad nid oedd wedi canfod unrhyw dystiolaeth o ogwydd, yn y dystiolaeth a roesant gerbron nac yn eu hatebion i'r croesholi. Mae'r Arolygydd yn fodlon bod y dystiolaeth a gyflwynwyd gan dystion Llywodraeth Cymru yn broffesiynol, cytbwys a theg.

Hawliau Dynol

19. Codwyd materion ynglŷn â Hawliau Dynol gan gynnwys honiad y byddid yn troseddu yn erbyn yr "hawl i fwynhau eiddo" o dan Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf ac Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (CEHD) pe bai'r GPG yn cael ei wneud a'r Cynllun yn cael ei adeiladu. Cofnodir casgliadau'r Arolygydd ynglŷn â'r materion hyn ym mharagraffau 10.19 to 10.28. Cyfeiriodd yr Arolygydd at y ffaith bod ymatebion Llywodraeth Cymru i brofion y gwrthwynebwyr unigol yn gwrthbrofi'n gyson bob honiad o dramgwydd yn erbyn Hawliau Dynol, yn y modd yr honnid neu o gwbl, a thynnodd sylw at y materion canlynol:

- roedd y cynllun yn cael ei hyrwyddo yn unol â'r gyfraith berthnasol
- roedd yr Ymchwiliad Cyhoeddus yn ffordd o ddarparu gwrandawriad teg
- byddai'r cynllun yn darparu buddion economaidd cyhoeddus cenedlaethol
- byddai'r cynllun yn cyflenwi buddion o ran diogelwch y cyhoedd
- byddai'r cynllun yn cyflenwi buddion iechyd drwy ddarparu glanach aer.

20. Er bod yr Arolygydd yn derbyn yr effeithid yn anffafriol ar dir ac eiddo unigol, ac y byddai hynny'n ymyrryd â bywyd cartref a theuluol, mae'n cofnodi bod angen gwrthbwysu hynny yn erbyn buddiant ehangach y cyhoedd a'r manteision a gyflenwid gan y cynllun. Mae'r Arolygydd yn fodlon y byddai effaith y cynllun yn gymesur; y maint lleiaf o dir yn unig a gymerid; a byddai'r unigolion yr effeithid arnynt yn cael eu digolledu. Daw'r Arolygydd i'r casgliad, felly, na fyddid yn troseddu yn erbyn Hawliau Dynol unrhyw barti o ganlyniad i'r cynllun.

Polisïau Cynllunio Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol

21. Ym mharagraffau 10.31-10.34 mae'r Arolygydd yn cofnodi bod tystiolaeth doreithiog wedi ei chyflwyno i ddangos y byddai'r cynllun yn cydymffurfio â pholisïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar Drafnidiaeth a'r Economi. Er na fydd pob polisi ar y dirwedd a'r amgylchedd yn cael ei hybu gan y cynllun, daeth i'r casgliad bod y polisïau hynny wedi cael sylw egniol yn ystod datblygiad y cynllun; a dangoswyd yn yr Ymchwiliad fod strategaethau eglur wedi eu sefydlu er mwyn gwneud effaith y cynllun yn dderbyniol. Daeth yr Arolygydd i'r casgliad y cefnogir y cynllun gan y rhan fwyaf o'r Polisïau Lleol a Chenedlaethol, a bod y cynllun yn gydnaws â'u hegwyddorion.

Anghenion Amaethyddiaeth a Graddau Tir Amaethyddol

22. Er bod yr Arolygydd yn datgan ym mharagraff 10.35 y byddai'r effaith ar Amaethyddiaeth yn anffafriol, ni fyddai'r cynllun yn effeithio ar unrhyw dir a ddsbarthwyd yn genedlaethol fel y gorau a'r mwyaf amlbwrpas. Daeth i'r casgliad y

gellid ystyried mai bach fyddai effaith gyffredinol y cynllun ar amaethyddiaeth, mewn termau cenedlaethol.

23. Ym mharagraffau 10.36 i 10.37 mae'r Arolygydd yn cofnodi'r pryder a godwyd ynghylch israddio categori amaethyddol y tir GPG a'r cais a wnaed am adolygiad annibynnol. Tra'n tynnu sylw at yr anfodlonrwydd sy'n parhau ynglŷn â'r mater hwnnw, roedd yn fwriadol yn ymatal rhag argymell unrhyw ailystyriaeth o'r fath.

Capasiti'r Briffordd Bresennol a'r Briffordd Arfaethedig

24. Ym mharagraffau 10.38 a 10.39 mae'r Arolygydd yn pwysu a mesur yr achos dros ffordd sengl 2 +1 yn hytrach na chynllun cerbyffyrdd sengl dwy lôn; ac ym mharagraff 10.40 daw i'r casgliad na fyddai dyluniad cerbyffordd 2 lôn sengl yn ymdopi'n ddiogel â llifoedd y galw am draffig yn y flwyddyn ddylunio 2032.

Yr Angen i Arafu a Gwanhau Dŵr Ffo ac Adfer Capasiti'r Gorlifdir

25. Ym mharagraff 10.42 daw'r Arolygydd i'r casgliad y byddai mesurau rhag llifogydd a rhag llygru dŵr yn lleihau'r posibilrwydd o effeithiau anffafriol unwaith y byddai'r cynllun yn weithredol, ac y byddai'r cyfuniad o byllau gwanhau ac o ostwng lefelau'r tir yn rhwystro llifogydd ac yn gwella ansawdd y dŵr; a daw i'r casgliad nad oes tystiolaeth wrthrychol ddigamsyniol sy'n dangos y byddai llifogydd yn digwydd oherwydd y cynllun.

Amcanion

26. Daeth yr Arolygydd i'r casgliad, allan o'r 7 o amcanion a bennwyd gan Lywodraeth Cymru (paragraff 4.28) ar gyfer y cynllun, y byddai, 4 (sef gwella cysondeb amseroedd teithio a thri o amcanion ar gyfer ffyrdd lleol) yn cael eu cyflawni pan agorid y ffordd osgoi, ac y byddai'r cynllun yn hwyluso cyflawni'r tri o'r amcanion ehangach sy'n weddill.

Cyllido ac Asesu Economaidd

27. Mae'r Arolygydd yn ystyried y materion hyn ym mharagraffau 10.43 i 10.45 ac yn dod i'r casgliad bod achos profedig o blaid y cynllun o ran y budd economaidd, ac mae wedi ei fodloni y byddai cyllid ar gael o fewn cyfnod rhesymol o amser.

Y Datganiad Amgylcheddol (DA) a'r Datganiad i Oleuo Asesiad Priodol

28. Mae'r Arolygydd, ym mharagraff 10.46, yn cofnodi bod DA Llywodraeth Cymru wedi ei gyhoeddi yn unol â Chyfarwyddebau Ewrop a'r DU, yr ymgynghorwyd â'r holl Awdurdodau Statudol yn ystod datblygiad y cynllun, a bod ymatebion yr awdurdodau hynny wedi eu cynnwys yn y DA a gymerwyd i ystyriaeth gan yr Arolygydd wrth iddo gyrraedd ei gasgliadau.

Sŵn Traffig Ffyrdd, Sŵn Adeiladu a Dirgrynu

29. Daw'r Arolygydd i'r casgliad, ym mharagraff 10.47, y byddai'r cynllun yn lleihau'r sŵn traffig presennol yn sylweddol ar gyrion Cefnffyrdd yr A483 ac A489 yn y Drenewydd ac ar ffyrdd trefol eraill sydd, o bryd i'w gilydd, yn cludo traffig trwodd. Mae'n derbyn hefyd y byddai sŵn yn cynyddu mewn rhan o'r ardal wledig i'r de o'r

Drenewydd, ond dywed y byddai'r tai annedd a ryddheid o sŵn traffig yn sylweddol fwy niferus na'r tai a fyddai'n dioddef cynnydd yn y sŵn. Ym mharagraff 10.48, mae'r Arolygydd yn cofnodi'r angen i weithredu'r Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu yn fanwl a diwro; ac ym mharagraff 10.49 mae'n cofnodi'r ymrwymiad i gynnal arolygon cyflwr eiddo "cynt ac wedyn".

Ansawdd Aer

30. Ym mharagraff 10.50 mae'r Arolygydd yn cofnodi ei fod yn fodlon y bydd y Cynllun yn gwella cyflwr aer yn y Drenewydd ar unwaith.

Y Dirwedd

31. Mae'r Arolygydd yn cofnodi ei ystyriaeth o'r effaith ar y dirwedd ym mharagraffau 10.51 -10.55. Er ei fod yn cofnodi y byddid yn lliniaru effaith y cynllun yn rhannol, daw i'r casgliad y byddai effaith anffafriol yn anochel, yn enwedig oherwydd mathau newydd o adeileddau peirianegol a ychwanegid at y dirwedd. Daw i'r casgliad y byddai'r cynllun yn cael effaith ddifrifol ar y dirwedd, ac mai hynny sy'n cynrychioli'r brif ddadl yn erbyn mabwysiadu'r cynllun.

Ardal Pont Mochdre

32. Mae'r Arolygydd ym mharagraff 10.56 yn cofnodi ei fod yn ymwybodol y bydd y Bont yn cael effaith ddifrifol ar y gymuned fechan a chlòs hon, yn enwedig yn ystod y gwaith adeiladu, a'i fod yn ystyried hynny yn un o anfanteision mwyaf y Cynllun; daeth i'r casgliad bod angen gohebu a'r preswylwyr yn rheolaidd, i roi gwybod iddynt am hynt y gwaith adeiladu.

Ymddangosiad y Pontydd

33. Ym mharagraff 10.57 mae'r Arolygydd yn nodi y mabwysiedir dyluniad cyson ar gyfer pob adeiledd, yn dilyn ymgynghoriad â Chomisiwn Dylunio Cymru, a bod YDCW wedi gofyn am adeileddau sydd â diwyg o'r "safon uchaf". Fodd bynnag, oherwydd natur sensitif ardal Pont Mochdre, cred y dylid adolygu ymddangosiad a siâp yr adeiledd hwnnw.

Treftadaeth Ddiwylliannol

34. Ym mharagraff 10.58 daw'r Arolygydd i'r casgliad mai bach iawn fyddai'r effaith anffafriol ar dreftadaeth ddiwylliannol.

Gwrthwynebiadau Unigolion

35. Mae'r Arolygydd wedi cofnodi ei gasgliadau ynglŷn â gwrthwynebiadau unigolion ym mharagraffu 10.60 - 10.160 a dylid eu darllen yno. Mae'r materion penodol a oedd yn codi o gasgliadau'r Arolygydd wedi eu hystyried gan y Gweinidog, fel y cofnodir ym mharagraffau 65 i 77 o'r llythyr hwn.

OPSIYNAU AMGEN

36. Mae'r Arolygydd wedi cofnodi ei gasgliadau mewn perthynas â'r 5 opsiwn amgen a gynigiwyd.

OPSIYNAU 1 ac 1A

37. Gan fod yr opsiynau hyn, a gynigiwyd yn bennaf i amddiffyn y gymuned dawel yn yr ardal o amgylch Pont Mochdre a Brook Terrace, yn debyg iawn i'w gilydd ac

eithrio un gwahaniaeth bach, sef y cyswllt â'r A489 bresennol ym mhen gorllewinol y cynllun, mae'r Arolygydd wedi eu hystyried gyda'i gilydd fel un opsiwn amgen at y diben o'u cymharu â'r cynllun, ac wedi cofnodi ei gasgliadau ym mharagraffau 10.161 i 10.174. Ym mharagraff 10.173, daw i'r casgliad:

- byddai'r opsiynau amgen yn well ar gyfer amaethyddiaeth a'r dirwedd
- ni fyddai'r opsiynau amgen yn gosod baich ar gymuned Pont Mochdre a Pharc Gwyliau Glandulas
- byddai'r opsiynau amgen yn fygythiad i gyflogaeth yn lleol
- byddai mabwysiadu opsiwn amgen yn peri oedi cyn cwblhau Ffordd Osgoi'r Drenewydd
- byddai'r cynllun yn gwasanaethu Ystad Ddiwydiannol Mochdre yn well
- byddai'r opsiynau amgen yn cael effaith negyddol arni
- yn gyffredinol, mae'n well gan y cyhoedd y cynllun na'r opsiynau amgen
- byddai cost y cynllun yn sylweddol is

38. Ar ôl ystyried pob un o'r uchod, daw'r Arolygydd i'r casgliad, ym mharagraff 10.174 na ddylid, o ychydig, ddewis yr opsiynau amgen hyn yn hytrach na'r cynllun.

OPSIWN AMGEN 2

39. Mae casgliadau'r Arolygydd ar yr opsiwn amgen hwn, sy'n amcanu i leihau'r effaith ar Fferm Black Hall wedi eu cofnodi ym mharagraffau 10.175 to 10.181. Ym mharagraff 10.180, mae'r Arolygydd yn crynhoi ei gymhariaeth rhwng yr opsiwn hwn a'r cynllun fel a ganlyn:

- byddai'r opsiwn amgen yn fanteisiol i Fferm Black Hall
- byddai'r opsiwn amgen yn waeth i eiddo mewn mannau eraill
- o ran costau ac economeg, mae'r opsiwn a'r cynllun yn gyfartal
- byddai'r cynllun yn darparu gwell safonau priffordd
- byddai'r cynllun yn gwasanaethu Ystad Ddiwydiannol Mochdre yn well
- byddai'r cynllun yn darparu gwell amrywiaeth mynediad i'r Drenewydd

40. Ym mharagraff 10.181 daw i'r casgliad bod anfanteision perthnasol yr opsiwn amgen hwn yn gorbwyso unrhyw fanteision a enillid ar gyfer Fferm Black Hall ac na ddylid ystyried yr opsiwn ymhellach.

OPSIWN AMGEN 3

41. Mae casgliadau'r Arolygydd ynglŷn â'r opsiwn amgen hwn, a gynigiwyd yn bennaf i leihau'r effaith ar Ffermdy Lower Brimmon, sicrhau cadwraeth derwen hynafol ac osgoi pwll sefydledig, wedi eu cofnodi ym mharagraffau 10.182 i 10.189. Ym mharagraff 10.187 mae'r Arolygydd yn crynhoi ei gymhariaeth rhwng yr opsiwn amgen hwn a'r cynllun fel a ganlyn:

- byddai'r opsiwn amgen yn well i Ffermdy Lower Brimmon

- byddai'r opsiwn amgen yn costio £900,000 yn fwy na'r cynllun
- ychydig o bwysigrwydd sydd i'r manteision byrhoedlog ar gyfer y pwll
- ni fyddai'r cynllun na'r opsiwn amgen yn bygwth y dderwen
- gallai'r opsiwn amgen achosi oedi cyn darparu ffordd osgoi i'r Drenewydd.

42. Ym mharagraff 10.189, er bod yr Arolygydd yn dod i'r casgliad na ddylid ystyried yr opsiwn amgen hwn ymhellach, dywed y dyllid cynllunio a goruchwylio'r gwaith gyda gofal a manylder yng nghyffiniau'r dderwen hynafol.

OPSIWN AMGEN 4

43. Mae casgliadau'r Arolygydd ynglŷn â'r opsiwn amgen hwn, a fyddai'n symud cylchfan y derfynfa ddwyreiniol ymhellach oddi wrth 6 eiddo sydd gerllaw'r A483, wedi eu cofnodi ym mharagraffau 10.190 to 10.196. Ym mharagraff 10.195, mae'r Arolygydd yn crynhoi ei gymhariaeth rhwng yr opsiwn amgen hwn a'r cynllun fel a ganlyn:

- mae'r effeithiau cymharol ar amaethyddiaeth yn lled debyg
- byddai'r opsiwn amgen yn cael ychydig llai o effaith ar eiddo
- byddai'r opsiwn amgen yn llawer drutach na'r cynllun
- byddai'r opsiwn amgen yn symud llai o'r traffig allan o'r Drenewydd
- gallai'r opsiwn amgen achosi oedi cyn darparu ffordd osgoi i'r Drenewydd

44. Ym mharagraff 10.196 daw'r Arolygydd i'r casgliad bod yr opsiwn amgen hwn, o ystyried popeth, yn amlwg yn salach opsiwn na'r cynllun, ac na ddylid ei ystyried ymhellach.

CASGLIADAU CYFFREDINOL YR AROLYGYDD AR GYFER Y GORCHMYNION A'R CYNLLUN

45. Cofnodir y rhain ym mharagraffau 10.197 I 10.212.

Y Gorchymyn Llinell a Statws Cefnffordd

46. Mae'r Arolygydd ym mharagraffau 10.197 a 10.198 yn cofnodi y byddai'r newidiadau arfaethedig yn y rhwydwaith cefnffyrdd yn rhai hwylus a fyddai hefyd yn gweithredu er budd y cyhoedd, o ystyried y gofynion cynllunio lleol a chenedlaethol, gan gynnwys gofynion amaethyddiaeth.

Y Gorchymyn Prynu Gorfodol (GPG)

47. Cofnodir y casgliadau hyn ym mharagraffau 10.199 i 10.203. Ac eithrio'r pedair ardal a restrir ym mharagraff 10.199 mae'r Arolygydd yn fodlon bod y tir a'r hawliau a gynhwysir yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r cynllun. Ym mharagraff 10.201, mae'r Arolygydd yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau cytundeb NPTC (Coleg Powys) ar gyfer Addasiad 2 yn Atodiad C i'w adroddiad. Daw'r Arolygydd i'r casgliad bod achos diwrthdro dros gynnwys yn yr GPG yr addasiadau a restrir yn Atodiad C ac Atodiad D i'w adroddiad, a atgynhyrchir yn Atodiad B i'r llythyr hwn.

Y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl (GFfY)

48. Cofnodir y casgliadau hyn ym mharagraffau 10.204 i 10.207. Mae'r Arolygydd yn fodlon y deliwyd â nifer o'r addasiadau a oedd yn codi, yn y rhestr o addasiadau a gynigiwyd ganddo ef ei hunan a chan Lywodraeth Cymru, ac a gynhwysir yn Atodiad B i'r llythyr hwn. Wrth wneud hynny mae'r Arolygydd yn tynnu sylw yn benodol at yr angen am fynedfa i dir Mr Jarman (Cae 0009) sydd i'w chyflenwi naill ai drwy wneud gwaith gwasanaethu neu addasiad ffurfiol. Gan gymryd hyn i ystyriaeth, mae'r Arolygydd, ym mharagraff 10.206, yn cofnodi ei fod yn fodlon, yn wyneb y cyfyngiadau daearyddol yr ardal, y bydd moddion tramwy cymharol hwylus yn cael eu darparu gan y cynllun, a bod y profion a bennir ym mharagraff 10.6 wedi eu bodloni.

Y Cynllun

49. Mae'r casgliadau hyn wedi eu cofnodi ym mharagraffau 10.208 i 10.212. Daw'r Arolygydd i'r casgliad bod yr achos o blaid cyflawni'r cynllun yn ddiwrthdro; y byddai'r cynllun yn cyflawni ei amcanion yn dda, a hynny'n darparu budd sylweddol i'r cyhoedd; bod angen gwneud yr addasiadau i GFfY ac GPG, ac na fyddai'r un ohonynt yn "newid o ran sylwedd" a fyddai'n galw am sylwadau neu ystyriaeth bellach yn ofynnol, ac na fyddai'r cynllun yn cael unrhyw effeithiau anffafriol anghymesur.

YSTYRIAETH Y GWEINIDOG

MATERION PENODOL

Cyflwyniadau Cyfreithiol

50. Mae'r Gweinidog yn nodi casgliadau'r Arolygydd ynglŷn â'r mater hwn. Bodlonwyd y Gweinidog mai'r arferiad safonol mewn Ymchwiliadau Cyhoeddus o'r math hwn yw i Weinidogion Cymru gael eu cynrychioli gan dîm o arbenigwyr proffesiynol cymwysedig, ac i dystiolaeth yr arbenigwyr hynny gael ei phrofi'n drwyadl. Yn wir, cysur i'r Gweinidog yw gwybod, nid yn unig fod gwrthwynebwyr wedi cael cyfle i groesholi ac i herio'r dystiolaeth a roddwyd, ond bod yr Arolygydd ei hunan yn cofnodi ei fod wedi cynnal yr Ymholiad mewn ffordd holgar, gan gynorthwyo partion i'r Ymchwiliad pan oedd angen, ynglŷn â'r materion technegol a chymhleth a oedd yn codi. Mae'r Gweinidog yn nodi bod yr Arolygydd yn fodlon bod y dystiolaeth a gyflwynwyd gan dystion Llywodraeth Cymru yn broffesiynol, cytbwys a theg, bod yr Ymchwiliad wedi darparu gwrandawriad teg i bawb ac na fu unrhyw barti dan anfantais oherwydd diffyg cynrychiolaeth broffesiynol.

Hawliau Dynol

51. Mae'r Gweinidog wedi nodi'r materion Hawliau Dynol a godwyd, ac yn benodol yr hawl i gael gwrandawriad teg a phriodol. Mae hi'n cytuno â'r Arolygydd, mai Ymchwiliad Cyhoeddus yw'r fforwm cywir a chydnabyddedig ar gyfer cyflawni hynny gan sicrhau y profir yr holl dystiolaeth yn deg a phriodol. O ran rhinweddau cyffredinol y Cynllun gyferbyn â'r ymyrraeth â hawliau dynol, mae'r Gweinidog wedi crynhoi hynny yn ei hystyriaeth gyffredinol ym mharagraff 86 isod.

Polisiâu Cynllunio Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol

52. Mae'r Gweinidog wedi nodi casgliad yr Arolygydd, sef bod y rhan fwyaf o'r Polisiâu Lleol a Chenedlaethol yn gefnogol i'r cynllun, a bod y cynllun yn gydnaws

â'u hegwyddorion, ac mae hi'n fodlon bod y cynllun yn dderbyniol ar sail cydbwysedd eglur y polisiau hynny.

Anghenion a Graddau Tir Amaethyddol

53. Mae'r Gweinidog yn nodi ac yn cytuno â chasgliadau'r Arolygydd ym mharagraff 10.35, sef y gellir ystyried mai bach yw effaith gyffredinol y cynllun ar amaethyddiaeth mewn termau cenedlaethol.

Capasiti'r Briffordd Bresennol a'r Briffordd Arfaethedig

54. Mae'r Gweinidog yn nodi ac yn cytuno â chasgliadau'r Arolygydd sef, oherwydd y galwadau teithio ar y ffordd osgoi, byddai cynllun cerbyffordd 2 lôn sengl yn gymharol anniogel, a'i fod yn fodlon y bydd y cynllun yn darparu priffordd sydd â chapasiti digonol a chyfleoedd da i oddiweddyd yn ddiogel.

Yr Angen i Arafu a Gwanhau Dŵr Ffo ac Adfer Capasiti'r Gorfdir

55. Mae'r Gweinidog yn nodi casgliadau'r Arolygydd, ac yn fodlon nad oes tystiolaeth wrthrychol ddiwrthdro i ddangos y byddai llifogydd yn digwydd oherwydd y cynllun.

Amcanion

56. Mae'r Gweinidog yn nodi ac yn cytuno â chasgliadau'r Arolygydd.

Cyllido ac Asesu Economaidd

57. Mae'r Gweinidog wedi nodi casgliadau'r Arolygydd ac yn fodlon bod y cyllid wedi ei gadarnhau drwy ei gynnwys yng Nghynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol 2015.

Y Datganiad Amgylcheddol (DA) a'r Datganiad i Oleuo Asesiad Priodol

58. Mae'r Gweinidog yn fodlon bod effaith amgylcheddol y cynllun wedi cael sylw priodol gan gymryd i ystyriaeth ofynion y ddeddfwriaeth. Ymdrinnir â hyn yn llawnach ym mharagraffau 82 i 84 o'r llythyr hwn.

Sŵn Traffig Ffyrdd, Sŵn Adeiladu a Dirgrynu

59. Mae'r Gweinidog yn nodi casgliadau'r Arolygydd ac wedi ailddatgan yr ymrwymiad i gynnal arolygon eiddo "cynt ac wedyn".

Ansawdd Aer

60. Mae'r Gweinidog yn nodi bod yr Arolygydd yn fodlon y byddai'r Cynllun yn achosi gwelliannau ar unwaith yn ansawdd yr aer yn y Drenewydd.

Y Dirwedd

61. Mae'r Gweinidog yn nodi casgliadau'r Arolygydd, sef ei bod yn anochel y byddai'r cynllun yn cael effaith anffafriol, yn enwedig wrth i'r cynllun ddwyn adeileddau peirianegol newydd i mewn i'r amgylchedd, ond cred y dylid gwrthbwysu hynny yn erbyn y buddion ehangach a ddeuai o'r cynllun.

Ardal Pont Mochdre

62. Mae'r Gweinidog yn ymwybodol hefyd y bydd y Bont hon yn effeithio'n ddifrifol ar y gymuned fechan a chlòs hon, yn enwedig yn ystod y gwaith adeiladu, ac yn cytuno y dylid rhoi gwybod i'r preswylwyr yn gyson am hynt y gwaith hwnnw.

Ymddangosiad y Pontydd

63. Mae'r Gweinidog yn nodi'r cyngor a gafwyd gan Gomisiwn Dylunio Cymru (CDC) sef y dylai'r holl adeileddau fod yn gyson o ran eu dyluniad, a deisyfiad YDCW am adeileddau sydd ag ymddangosiad o'r "safon uchaf". Fodd bynnag, mae'r Gweinidog yn cytuno â barn yr Arolygydd (paragraff 10.57), sef y dylid adolygu diwyg a siâp Pont Mochdre. Bydd hyn yn cael ei drefnu ar y cyd ag CDC, ond ni all y Gweinidog wneud unrhyw sylw ynghylch yr hyn allai deillio o'r adolygiad hwnnw.

Treftadaeth Ddiwylliannol

64. Mae'r Gweinidog yn cytuno â'r Arolygydd mai bach iawn fyddai unrhyw effaith anffafriol ar dreftadaeth ddiwylliannol.

Materion yn codi o Wrthwynebiadau Unigolion yn yr Ymchwiliad

Fferm Black Hall

65. Mae'r Gweinidog yn nodi bod ei swyddogion eisoes wedi hysbysu'r perchnogion, wrth ystyried eu gwrthwynebiad, am y gofynion o ran malltod cynllunio.

Sunridge

66. Mae'r Gweinidog yn nodi casgliadau'r Arolygydd ac yn cytuno y dylid ac y bydd arolygon cyflwr eiddo "cynt ac wedyn" yn cael eu cynnal a hefyd yn cytuno â'r cynnig i osod rhwystr parhaol yn ystod y cyfnod adeiladu.

Fferm Melstone

67. Mae'r Gweinidog wedi nodi casgliadau'r Arolygydd (paragraff 10.77) sef bod y fynedfa breifat arfaethedig 4/9b yn terfynu mewn darn o dir sy'n anweithadwy o serth yn y cae P0009, ac yn cymeradwyo'r ymrwymiad i ddatrys y broblem drwy newid lefel y trac mynediad fel rhan o'r gwaith gwasanaethu.

Gelli

68. Mae'r Gweinidog yn fodlon cytuno i hepgor y parcel trionglog o lawnt sy'n gynwysedig ym mhlot 4/4, ond yn nodi bod yr eiddo hwn yn parhau'n destun negodi, o ganlyniad i dderbyn Hysbysiad Malltod.

Bryneira

69. Mae'r Gweinidog yn cytuno â barn yr Arolygydd, sef na ellid cyfiawnhau pont wasanaethu ar draws y ffordd osgoi. Mae'r Gweinidog fodd bynnag yn fodlon cytuno i adeiladu corlan i ddal anifeiliaid fel gwaith gwasanaethu, ac yn agored i gytundeb ar waith gwasanaethu pellach mewn perthynas â materion cyflenwi dŵr. Mae'r Gweinidog hefyd yn cytuno y dylid cynnal arolygon cyflwr eiddo "cynt ac wedyn".

Brimmon House and Brimmer House

70. Mae'r Gweinidog yn cydsynio i'r ymrwymadau i wneud addasiadau a gwaith gwasanaethu fel yr adroddir ym mharagraffau 10.87 a 10.88.

Lower Brimmon

71. Mae'r Gweinidog yn nodi ac yn cytuno â'r addasiad i leihau'r cymeriant tir a glustnodwyd ar gyfer tirlunio ger Lôn Wern Ddu (paragraff 10.89).

Brimmon House

72. Mae'r Gweinidog yn nodi ac yn cytuno â'r angen i ail-broffilio rhywfaint o'r tir rhwng Brimmon House a'r ffordd ym mhlot 3/3zz ac yn nodi bod materion gwasanaethu eraill yn agored i'w trafod ymhellach (paragraffau 10.92 i 10.93).

Tir ac Eiddo ger Lôn Wern Ddu

73. Mae'r Gweinidog yn nodi ac yn cytuno y bydd materion diogelwch a phreifatrwydd ynghylch y fynedfa breifat wedi cael sylw digonol os gosodir ffens, llidiart a chlo arni. Mae'r Gweinidog yn nodi hefyd fod yr Arolygydd wedi ei fodloni nad yw darparu cilfan yn dibynnu ar Orchymyn Rheoli Traffig (GRhT) sy'n cyfyngu ar barcio. Bydd yr angen am GRhT o'r fath, felly, yn cael ei gadw dan arolwg.

The Gables

74. Mae'r Gweinidog yn cytuno ag argymhellion yr Arolygydd i geisio dod i gytundeb ar y gwahanol faterion gwasanaethu a ddisgrifir ym Mharagraff 10.102.

Ty'n y Green

75. Mae'r Gweinidog yn cydnabod bod yr Arolygydd wedi nodi pryderon Mr Jones ynghylch y brif bibell ddŵr breifat i'r eiddo, a bydd ailgyfeiriadau priodol o'r brif bibell ddŵr breifat yn cael eu darparu.

Beicio a Darpariaeth Arall i Ddefnyddwyr Heblaw Modurwyr

76. Mae'r Gweinidog wedi nodi'r pryderon a godir ym mharagraffau 10.199 a 10.120. Mae'r Gweinidog yn cytuno â barn yr Arolygydd, sef na ddylid lleihau maint y 4 o gylchfannau cefnffordd, ond y dylai cyfleusterau beicio gael eu hadeiladu fel rhan o ddyluniad y cylchfannau hyn.

Materion sy'n Codi o'r Gwrthwynebiadau Ysgrifenedig

77. Mae'r Gweinidog wedi ystyried casgliadau'r Arolygydd ym mharagraffau 10.121 to 10.160 a'r gweithredu a argymhellir ym mharagraffau 10.122 (Parc Gwyliau Glandulas); 10.123 (Coleg Powys); 10.126 (Mr Richards); 10.136 a 10.58 (darpariaeth addasedig ar gyfer beicio); 10.144 (Avondale); 10.151 (Pont Mochdre); a pharagraff 10.160 (adolygu tirlunio), ac ni wêl unrhyw reswm i anghytuno â'r casgliadau hyn a'r gweithredu a argymhellir.

OPSIYNAU AMGEN

Opsiwn amgen 1 ac 1A

78. Mae'r Gweinidog wedi nodi casgliadau'r Arolygydd yn ofalus, yn enwedig manteisio ac anfanteision yr opsiynau hyn o gymharu â'r cynllun. Er cydnabod y caiff y cynllun effaith weledol anffafriol yn ardal Mochdre, mae'r Gweinidog, ar ôl ystyried yr holl agweddau, yn cytuno â'r Arolygydd na ddylid dewis yr opsiynau amgen hyn yn hytrach na'r cynllun.

Opsiwn amgen 2

79. Tra'n nodi'r effaith ar Fferm Black Hall, mae'r Gweinidog yn cydnabod casgliadau'r Arolygydd ac yn cytuno, er gwaethaf manteision yr opsiwn amgen hwn i Fferm Black Hall, nad yw'r manteision hynny'n gorbwyso anfanteision perthnasol yr opsiwn amgen, ac yn cytuno na ddylid ei ystyried ymhellach.

Opsiwn amgen 3

80. Er bod y Gweinidog yn nodi'r rhesymau dros gynnig yr opsiwn hwn, mae hi'n cytuno â chasgliadau'r Arolygydd na ddylid ystyried yr opsiwn ymhellach. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, mae'r Gweinidog yn cytuno bod gofal ynglŷn â manylion y dyluniad ac wrth oruchwylio'r gwaith ger y dderwen hynafol yn hanfodol, ac yn nodi bod yr Arolygydd yn fodlon ar y dulliau adeiladu arfaethedig a ddisgrifir ym mharagraffau 10.183 -10.184.

Opsiwn amgen 4

81. Tra'n nodi bod yr opsiwn hwn wedi ei gynnig er mwyn symud cylchfan y derfynfa ddwyreiniol ymhellach oddi wrth 6 eiddo sydd gerllaw'r A483, mae'r Gweinidog yn derbyn nad yw'r buddion a enillid yn gorbwyso manteision y cynllun, ac yn cytuno â'r Arolygydd ei bod yn amlwg nad yw'r opsiwn hwn cystal â'r cynllun, ac na ddylid ei ystyried ymhellach.

Y DATGANIAD AMGYLCHEDDOL A'R DATGANIAD I OLEUO ASESIAID PRIODOL

82. Mae'r Gweinidog wedi ystyried yn ofalus yr achos o blaid y Cynllun, y DA a phob barn a fynegwyd ar y DA gan aelodau'r cyhoedd a'r cyrff ymgynghori, ac yn nodi bod yr Arolygydd yn fodlon bod y DA wedi ei gyhoeddi yn unol â gofynion deddfwriaeth Ewrop a'r DU. Mae'r Gweinidog yn derbyn bod angen y Cynllun hwn er mwyn ceisio datrys y problemau presennol a amlinellir ym mharagraffau 3 i 5 o'r llythyr hwn, ond bod angen gwrthbwysu hynny yn erbyn effaith amgylcheddol y Cynllun ac unrhyw safbwyntiau a fynegir gan aelodau'r cyhoedd a'r cyrff ymgynghori.

83. Mae'r Gweinidog yn fodlon bod yr ymatebion i'r DA wedi cael sylw priodol, ac yn nodi'r cofnod gan yr Arolygydd i'r perwyl nad oedd neb, yn ystod yr Ymchwiliad, yn feirniadol o'r DA. Mae'r Gweinidog yn fodlon bod yr asesiad effaith amgylcheddol yr adroddir arno yn y DA, yn bodloni gofynion Cyfarwyddeb y Cyngor 2011/92/EU. Mae'r Gweinidog yn fodlon hefyd bod yr Asesiad o'r Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd yr adroddir arno yn y DOAP yn cydymffurfio â Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010, sy'n gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EC. Mae'r Gweinidog yn nodi'r casgliad yn y DOAP i'r perwyl na fyddai'r cynllun, hyd yn oed yn absenoldeb lliniaru, yn cael effaith arwyddocaol ar ACA Camlas Trefaldwyn, boed ar ei ben ei hunan neu mewn cyfuniad â chynlluniau a phrosiectau eraill, a bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cadarnhau'r casgliad hwnnw. Mae'r Gweinidog yn nodi hefyd fod y Gweinidog Adnoddau Naturiol yn fodlon bod modd i'r Cynllun fynd ymlaen yn unol â rheoliad 61 o Reoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010.

84. Mae'r Gweinidog, felly, yn fodlon bod y sylwadau a wnaed ar ôl cyhoeddi'r DA a'r DOAP wedi eu hystyried yn ofalus ac yn briodol ac nad oes yr un o'r materion

godwyd yn gwneud unrhyw newidiadau pellach yn ofynnol yng nghynigion y Cynllun nac yn y mesurau lliniaru nac, felly, yn y DA.

PENDERFYNIAD Y GWEINIDOG A GWNEUD Y GORCHMYNION

85. Nid yw'r Gweinidog wedi canfod unrhyw beth i anghytuno ag ef yng nghanfyddiadau cyffredinol yr Arolygydd, ac mae hi wedi derbyn argymhellion yr Arolygydd yn Adran11 y gellir gwneud y Gorchmynion gan ymgorffori'r addasiadau, a gynhwysir yn Atodiad C ac Atodiad D i'r Adroddiad ac a atgynhychir yn Atodiad B i'r llythyr hwn.

86. Wrth dderbyn argymhellion yr Arolygydd, mae'r Gweinidog wedi ystyried yn ofalus a yw'r dibenion y paratowyd yr GPG ar eu cyfer, gan gynnwys yr addasiadau a roddwyd gerbron yn yr Ymchwiliad a'r addasiad a roddwyd gerbron gan yr Arolygydd, yn cyfiawnhau'n ddigonol yr ymyrraeth â hawliau dynol y rhai sydd â buddiannau yn y tiroedd yr effeithir arnynt, a'r rhai yr effeithir arnynt rywfodd arall gan y cynllun. Mae'r Gweinidog wedi ei bodloni bod cyfiawnhad dros ymyrryd felly oherwydd yr angen diwrthdro i gaffael yn orfodol y tir sy'n ddarostyngedig i'r GPG, er budd y cyhoedd, ar gyfer cyflenwi'r Cynllun. Bodlonwyd y Gweinidog na ellid cyflawni dibenion y Gorchmynion mewn unrhyw ffordd arall. Yn benodol, bu'r Gweinidog yn ystyried darpariaethau Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf iddo. Ynglŷn â hyn, bodlonwyd y Gweinidog bod yr GPG wedi ei wneud gan gadw cydbwysedd teg rhwng y defnydd o bwerau prynu gorfodol, y gorchmynion perthnasol a hawliau'r gwrthwynebwyr, gan gynnwys rhai na oeddent wedi eu cynnwys yn yr GPG.

87. O ganlyniad, mae'r Gweinidog wedi penderfynu y caiff y gwelliant hwn, y mae mawr angen amdano, fynd yn ei flaen ac y ceir gwneud y Gorchmynion drafft ar ôl ymgorffori ynddynt yr addasiadau a bennir yn Atodiad B i'r llythyr hwn (yn ddarostyngedig, yng ngoleuni sylwadau'r Arolygydd, i ail-gadarnhad gan y perchnogion tir eu bod y cytuno ag addasiad 2 i'r GPG). Penderfynir amser gwneud y Gorchmynion yn dilyn adolygiad o argaeledd adnoddau ar gyfer y Cynllun, fel y dynodir yng Nghynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol 2015. Bydd y Gorchmynion wedyn yn dod i rym ar y dyddiad y cyhoeddir am y tro cyntaf yr hysbysiad eu bod wedi eu gwneud.

CYFLEU'R PENDERFYNIAD

88. Mae'r llythyr hwn a'r hysbysiad cyhoeddus (HC) amgaeedig am y DA wedi eu hanfon at bawb a fynegodd farn ar y cynllun ac at bartïon eraill sydd â diddordeb, a gellir eu gweld hefyd yn <http://cymru.gov.uk/pynciau/trafnidiaeth/ffyrdd/prosiectau/ffordd/adroddiadau/?lang=cy>.

Mae copïau o'r llythyr hwn, Adroddiad yr Arolygydd a'r HC amgaeedig, ynghyd â'r DA a'r and DOAP ar gael hefyd i'w harchwilio yn y manau a restrir ym mharagraff 12 uchod, tan 11 Rhagfyr 2015.

YR HAWL I HERIO

89. Os yw unrhyw berson, a dramgwyddir gan y Gorchymyn Llinell neu'r GFfY, yn dymuno herio'u dilysrwydd neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth sydd ynddynt, ar y sail:

- a. nad yw o fewn pwerau Deddf Priffyrdd 1980; neu
- b. na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad o'r Ddeddf honno neu o reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos wedi iddynt ddod yn weithredol, wneud cais at y diben hwnnw i'r Uchel Lys.

90. Os yw unrhyw berson, a dramgwyddir gan yr GPG, yn dymuno herio dilysrwydd y Gorchymyn hwnnw neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y sail:

- a. nad yw'r awdurdodiad, a roddwyd drwy hynny ar gyfer pryniant gorfodol, yn awdurdodiad y mae pŵer i'w roi o dan Ddeddf Caffael Tir 1981, nac unrhyw ddeddfiad o'r fath a grybwyllir yn adran 1(1) o'r Ddeddf; neu
- b. na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad perthnasol,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos wedi i'r Gorchymyn ddod yn weithredol, wneud cais at y diben hwnnw i'r Uchel Lys.

Yr eiddoch yn gywir



RICHARD MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Is-adran Rheoli'r Rhwydwaith

Rhestr Ymgynghoreion

Statudol

Traffic Management Officer
Dyfed-Powys Police
PO Box 99
Llangunnor
Carmarthen SA31 2PF

Richard Smith
Chief Fire Officer
Mid and West Wales Fire & Rescue
Service
Fire Service Headquarters
Lime Grove Avenue
Carmarthen SA31 1SN

Mr. Rob Jeffery - Production Manager
Welsh Ambulance Services NHS Trust
Central & West Region Headquarters
Ty Maes y Gruffydd
Cefn Coed Hospital
Cockett
Swansea SA2 0GP

Openreach National Notice Handling
Centre
Post Point 3WW58
Telecom House
Trinity Street, Hanley
Stoke-on-Trent
Staffordshire ST1 5ND

National Power Plc
Windmill Hill Business Park
Whitehall Way
Swindon
Wiltshire SN5 9XN

Powergen Property
Westwood Way
Westwood Business Park
Coventry
CV4 8LG

Magnox Electric PLC
Berkley Centre
Berkley
Gloucestershire GL13 9PB

Cable & Wireless UK
C/o Atkins Telecoms
The Hub
500 Park Avenue
Aztec West
Almondsbury
Bristol BS32 4RZ

Natural Resources Wales
FAO Stuart Reid
Development Planning Team
Rivers House
St. Mellons Business Park
Fortran Road
St. Mellons
Cardiff CF3 0EY

Western Power Distribution
NRSWA Section
Mapping Centre
Lamby Way
Cardiff CF3 2EQ

Western Power Distribution
Registered office
Avonbank
Feeder Road
Bristol BS2 0TB

Wales & West Utilities
Wales & West House
Spooner Close
Celtic Springs
Coedkernew
Newport NP10 8FZ

National Grid Plant Protection
National Grid
Block 1
Brick Kiln Street
Hinckley LE10 0NA

Virgin Media
National Plant Enquiries Team
Communications House
Scimitar Park
Courtauld Road
Basildon
Essex SS13 1ND

Powersystems UK Ltd
Badminton Road Trading Estate
Badminton Road
Yate
Bristol BS37 5GG

Dwr Cymru
For the attention of Christine Thorpe,
Solicitor
Pentwyn Road
Nelson
Treharris CF46 6LY

Dwr Cymru
Ms Natasha Starynskyj,
Legal Officer
Pentwyn Road
Nelson
Treharris CF46 6LY

Mr Richard Kevern
Protection & Policy
CADW
Unit
5-7 Cefn Coed
Nantgarw
Cardiff CF15 7QQ

Chief Executive
Powys County Hall
Spa Road East
Llandrindod Wells
Powys LD1 5LG

Powys County Council
Rights of Way Officers - Sian Barnes and Callum Carr
Powys County Hall
Spa Road East
Llandrindod Wells
Powys LD1 5LG

Mrs Kathleen Wigley
Community Clerk
Mochdre with Penstrowed Community Council
Ashford
The Bank
Newtown SY16 2AB

Mrs Elizabeth Jones
Clerk
Newtown and Llanllwchaiarn Community Council
Council Offices
The Cross
Broad Street
Newtown
Powys SY16 2LS

Severn Trent Water Ltd
Lamledge Lane
Shifnal
Telford
TF11 8SD

Scottish Power Energy Networks

National Power

National Grid Company Plc
PO Box 7324
Hams Lane
Coleshill
Birmingham B46 1AR.

British Telecom Openreach
Repayments (Alterations) PP215S
Shrewsbury ATE
Town Wells
Shrewsbury SY1 1TY

Pipeline Management
c/o Fisher German
PO Box 5639
Ashby de la Zouch
Leicester LE65 1ZB.

A F Gardner, Plas Newydd Farm, Mold.
Mrs S M E Sewell, 209 Brampton Road, Carlisle.
Mr J E & Mrs J G Mason, Malfield, Welshpool.
Mr Edward Gwillim, NPT College, Brecon.
Martin Watkin, NPT College, Brecon.
M Davies, Garth Farm, Llanidloes.

I C Norris (Jones Norris Adams), London.
M Langford, Pwllan, Newtown.
Glandulas Caravan Park c/o Mr D Gale-Haselam, Savills, Chester.
Mrs F A M Evans & Mrs R Moss, Plas Carreg, Isle of Man.
C Jones, Berrys, Shrewsbury.
Mr D Gale-Haselam, Savills, Chester.
James Baker, Roger Parry & Ptnrs, Shrewsbury.
Kier Facilities, Cardiff.
S E Morris (Prydis Sipp Pension Fund) Exeter.
Davis Meade Property Consultants, Oswestry.
Katherine Lewis c/o Philip Meade, Davis Meade Property Consultants, Oswestry.
Philip Meade, Davis Meade Property Consultants, Oswestry.
James Neame, Davis Meade Property Consultants, Oswestry.
John H Payne, 24 Crich Avenue, Derby.
Katie Morris, McCartneys, Knighton.
Mrs G J Jones, Penyffridd Brooks, Welshpool.
David Cooil, NMWTRA, Bangor.
Network Rail Infrastructure Ltd, London.
Mr W B Griffith & Mrs M R B Griffith, Bryneira, Newtown SY16 3AB.
M J Thomas, Severnside and Newtown Angling Club, SY16 1LB.
Mochdre Community Council, Ashford, Newtown, SY16 2AB.
David Cooke, Hafren View, Newtown SY16 4HZ.
P & S Nesta Re., Glanrhyd, Newtown SY16 4HZ.
Peter Oakes and Mrs T Mary, Glanhafren Hall, SY16 4HZ.
Mr I C & Mrs J Mason, The Beeches, SY16 4HZ.
Mr C N Clayton, Upper Brimmon Farm, SY16 3AE.
Mr J G & M W A Clayton, Great Brimmon Farm, SY16 3AE.
D Lyndon & Mrs E E P Clark, Cefn-y-Faesdre, SY16 4DR.
Owner/Occupier, Wernddu, SY16 3DN.
Mrs P M James, Oakdale, Kerry Road SY16 4EE.
Mr P Watkin, Brimmon House SY16 3AE.
Ms C Bryna (R George & Jenkins), Newtown SY16 2NT.
Mr M S Owens, 3 & 4 Crown Street SY16 2AN.
Estate of E C C Morgan, c/o Ruth E Francis, 67 Churchill Drive SY16 2LH.
NPTC Group, Fronlas Farm SY16 4HU.
Powys CC, c/o County farms Office, Neuadd Maldwyn SY21 7AS.
RES UK & Ireland Ltd, Beaufort Court, Hertfordshire WD4 8LR.
Mr T A Jones, Ystrad Fawr, Llanbryn-mair SY19 7AL.
Mr J E Jones, Tan-y-Ffrydd, SY16 4JY.
Mrs R Y Turnbull / Mr I Cross, Mr R Williams c/o Felin Garreg, Cefn Coed Road,
Montgomery SY15 6NL.
NUON UK Ltd, Abbey Warehouse, Penzance T18 4AR.
Mr S M Owens, 21 High Street, Welshpool SY21 7JP.
Chris Robinson, Thompson Broadbent, Corby NN17 5JG.
Mrs A Rowlands, Madaket-Mead, troed-y-Garth, Llanidloes SY18 6NA.
Mr J D Thoms, Bryndraenog, Knighton LD7 1YD.

Anstatudol

Mr G H Roberts
Assistant Director, Property Management
Welsh Health Estates
PO Box 182, Bevan House
24-30 Lambourne Crescent
Llanishen, Cardiff CF14 5GS

Mrs B Smith
NAVTEQ
Unit 7 Athena Court
Athena Drive
Tachbrook Park
Warwick CV34 6RT

Mr Ian Gallagher
Freight Transport Association
Traffic Officer
Hermes House
St Johns Road
Tunbridge Wells
Kent TN4 9UZ

Territory Outside Party Engineer
(Western)
Network Rail
6th Floor, Western House
1, Holbrook Way
Swindon SN1 1BD

Network Rail
1 Eversholt Street
London
NW1 2DN

Mr Roland Seber
Right to Ride Network
Campaign Development Officer
Parklands
Railton Road
Guildford GU2 9JX

Welsh Cycling
Wales National Velodrome
Newport International Sport Village
Newport
NP19 4PS

Sustrans Cymru
123 Bute Street
Cardiff
CF10 5AE

Mr Henry Whittaker
Senior Executive
Access & Rights of Way
The British Horse Society
Stoneleigh Deer Park
KENILWORTH
Warwickshire

Mrs Jeanne Hyett
Access & Bridleway Officer – Wales
British Horse Society
Woodlands Farm
Caerphilly Mountain
Caerphilly CF83 1NF

The Coal Authority
200 Litchfield Lane
Mansfield
Nottinghamshire
NG18 4RG

Health and Safety Executive
Field Operations Division
Government Buildings
Ty Glas
Llanishen
Cardiff CF14 5SH

Mr P N Scott
Hazardous Installations Directorate
Health & Safety Executive
Government Buildings
Ty Glas
Llanishen
Cardiff CF14 5SH

Director for Wales
The National Trust
Trinity Square
Llandudno
Gwynedd
LL30 2DE

Mr Peter Ogden
Director
Campaign for Protection of Rural Wales
Tŷ Gwyn
31 High Street
Welshpool
Powys SY21 7JP

Mr Julian Atkins
Director of Countryside and Land
Management
Brecon Beacons National Park Authority
Plas y Ffynnon
Cambrian Way
Brecon
Powys LD3 7HP

Mr C Martin
Chief Curatorial Officer
The Clwyd-Powys Archaeological Trust
7A Church Street
Welshpool
Powys SY21 7DL

NFU Cymru
Agriculture House
Royal Welsh Showground
Builth Wells
Powys
LD2 3TU

Land Use Officer
Farmers' Union of Wales
Llys Amaeth
Plas Gogerddan
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3BT

Inland Waterways Association
Head Office
Island House
Moor Road
Chesham HP5 1WA

Liz Donnelly
Lovell Johns Limited
10 Hanborough Business Park
Long Hanborough
Witney
Oxfordshire OX29 8RU

Gwenda Owen
Ramblers Cymru
3 Coopers Yard
Curran Road
Cardiff
CF10 5NB

Welsh Officer
The Ramblers
3 Coopers Yard
Curran Road
Cardiff
CF10 5NB

General Secretary
Open Spaces Society
25A Bell Street
Henley on Thames
RG9 2BA

British Waterways (South West)
Llanthony Warehouse
Gloucester Docks
Gloucester
GL1 2EJ

Rebecca Mattingley
The Sports Council for Wales
Sophia Gardens
Cardiff
CF11 9SW

The Civic Trust for Wales
1/07 Creative Quarter
Morgan Arcade
Cardiff CF10 1AF

Friends of the Earth Cymru
33 Castle Arcade
Cardiff
CF1 2BX

The District Manager
Road Haulage Association
Roadway House
Cribbs Causeway
Bristol
BS10 7TU

Defence Land Agency
Blakemore Drive
Sutton Coldfield
West Midlands
B75 7RL

A D Pullen-Jones
Defence Land Agent
The Barracks
Brecon
Powys
LD3 7EA

Stuart Dodwell
Rights of Way Officer
WTRA Ltd
28 Porthkerry Road
Rhoose
Vale of Glamorgan
CF62 3HD

CBI Wales
2 Caspian Point
Caspian Way
Cardiff Bay
Cardiff
CF10 4DQ

Nigel Keane
Senior Policy Advisor
Wales Social Partners Unit Limited
Room 208, Titan House
Titan Road
CARDIFF
CF24 5BS

Catriona Devon
Data Assistant
Premier Planning Consultancy
1st Floor
8 Elliott Place
Skypark SP1
Glasgow G3 8EP

Mr M Chapman
Rights of Way Section
Powys County Council
County Hall
Llandrindod Wells
Powys LD1 5LG

David Parsons
Scrutiny and Democratic Services
Manager
Local Access Forum Secretary
Powys County Council
Llandrindod Wells
Powys
LD1 5ES

Dee Reynolds
Regional Strategy Director
Tourism Partnership Mid Wales
Y Plas
Machynlleth
Powys
SY20 8ER

Michael Vaughan
Head of Franchise & Stakeholder
Management
Arriva Trains
St Mary House
47 Penarth Road
Cardiff
CF10 5DJ

Civil Aviation Authority
Gatwick

Glyn Evans
Area Manager
North and Mid Wales
Sustrans Cymru
17 Wells Street
Ruthin
Denbighshire LL15 1AE.

Mrs D Packwood
Wace Morgan Solicitors
2 Belmont
Shrewsbury SY1 1TD

ADDASIADAU A GEISIWYD GAN LYWODRAETH CYMRU

Rhestrir isod bob addasiad a gynigir gan Lywodraeth Cymru.

Addasiad Rhif 1 – GPG

Byddai hwn yn newid yr GPG drafft i adlewyrchu newidiadau ym mherchnogaeth lotiau tir.

Byddai'n cyflwyno buddiant newydd 1/13, a fyddai'n peri diwygio'r Buddiant 1/8.

Byddai'r Plotiau 1/8, 1/8a, 1/8b, 1/8c, 1/8d, 1/8v, 1/8w, 1/8x, 1/8y, 1/8z ac 1/8aa yn cael eu tynnu allan o'r Atodlen GPG, a Phlotiau 1/8bb, 1/8cc, 1/13, 1/13a i 1/13h, 1/13j ac 1/13k yn cael eu hychwanegu at yr Atodlen a'r Plan. Ni fyddai unrhyw gynnydd net yn arwynebedd y tir nac yn ei ddynodiad.

Addasiad 2 – GFfY ac GPG

GFfY

Byddai'r addasiad GFfY yn adlewyrchu dymuniadau ysgrifenedig perchennog y tir i ailgyfeirio Llwybr Cyhoeddus FP251/3 i ddilyn llinell ffens derfyn ogleddol y cynllun, i'r gorllewin o Mochdre Brook.

Darperid mynedfa newydd i'r rhan ddeheuol wahanedig o'r cae D0008 ar y Plan Safle GFfY 1, drwy gau'r fynedfa bresennol 1/8 a chynnwys Mynedfa Breifat 1/8A ailgyfeiriedig drwy'r tir a glustnodwyd ar gyfer y pwll gwanhau 1/A Dwyrain.

Byddai'r Briffordd 1/L ar y Plan Safle GFfY 1 yn cael ei lleoli i'r de o'r cynllun cyn belled â thanffordd Coleg Powys, a fyddai wedyn yn cael ei hailddynodi yn llwybr ceffylau. Dylai'r Fynedfa Breifat ailgyfeiriedig 1/7b dilyn yr aliniad hwn.

GPG

Byddai'r addasiad GPG i'r cymeriant tir parhaol i'r de o'r cynllun yn lleihau'r tir a gaffaelir er mwyn caniatáu i dda byw fynd o dan y Bont Mochdre arfaethedig a chael mynediad i'r tir gwahanedig i'r gogledd o'r cynllun.

Byddai'r newidiadau dilynol i GFfY yn disodli Cyf 1/K a Cyf 1/L gydag aliniadau addasedig ac yn diwygio'r disgrifiad o'r Fynedfa Breifat 1/7 i gyfeirio at "cae" yn hytrach na "caeau".

Byddent hefyd yn addasu manylion Cyf 1/6b a Cyf 1/7b ac yn ychwanegu darn caeedig newydd o'r Fynedfa Breifat 1/8 a darn newydd o 1/8a.

Byddai'r newidiadau dilynol i GPG yn tynnu allan y Plotiau 1/9, 1/10, 1/10c, 1/10L, 1/10m, 1/10n, 1/10q, 1/10v, 1/10x, 1/10LL, 1/10xx, 1/10ddd, 1/10jjj, 1/10ppp ac 1/10uuu.

I gyfateb, ychwanegid Plotiau 1/9f, 1/9g, 1/9h, 1/9j, 1/9k, 1/9L, 1/10www, 1/10xxx, 1/10yyy, 1/10zzz, 1/10aaaa, 1/10bbbb, 1/10cccc, 1/10dddd, 1/10eeee, 1/10ffff, 1/10gggg, 1/10rrrr, 1/10ssss ac 1/10tttt, gan ddiwygio Plotiau 1/10aa, 1/10mm, 1/10nn, 1/10qq, 1/10rr ac 1/10sss. Ymgorfforid Plotiau newydd 1/10hhh, 1/10jjj, 1/10kkkk, 1/10LLLL, 1/10mmmm, 1/10nnnn, 1/10pppp ac 1/10qqqq.

Ni fyddai cynnydd net yn y tir a gymerid oddi ar Gyngor Sir Powys ond byddai cynnydd net yn y tir a gymerid oddi ar NPTC Group, sef 1507m² (teitl) a 647m² (hawddfrait).

Addasiad 3 – GPG

Ar gais perchennog y tir, byddai'r Plot 2/3a GPG yn cael ei ddisodli gan y Plot 2/3b, a fyddai'n cynyddu'r arwynebedd 57m², o 25m² i 82m².

Byddai'r Plot 2/4c yn cael ei ddisodli gan y Plot 2/4k gan leihau'r arwynebedd o 127m² i 70m², sef lleihad net o 57m² yn y cymeriant tir i wrthbwysu'r cynnydd o 57m² a nodir uchod.

Addasiad 4 – GPG

Yn yr Atodlen GPG – ychwaneger Plotiau 2/1n, 2/1p i 2/1z at yr GPG a Phlotiau 2/1aa i 2/1cc at y Buddiant 2/1.

Tynner allan y Plotiau 2/20b, 2/20c, 2/20j i 2/20n a 2/20p i 2/20r, oll gyda manylion cyswllt a chyfeiriad wedi eu diweddarau. Byddai manylion cyswllt a chyfeiriad yn cael eu diweddarau hefyd ar gyfer Plotiau 2/20, 2/20a a Phlotiau 2/20d i 2/20h.

Tynner allan y Plotiau 2/19, 2/19b, 2/19c, 2/19d a 2/19e. Ni fyddai cynnydd net yn y tir a gaffaelid.

Addasiad 5 – GPG

Ar gais perchennog y tir, ychwaneger Plot 2/15b newydd of 900m² at yr GPG.

Addasiad 6 – GPG

Tynner allan y Plotiau 3/3a, 3/3b, 3/3e, 3/3f, 3/3h, 3/3k, 3/3m, 3/3n, 3/3ff, 3/3jj, 3/3vv ac 3/3zz o'r GPG.

Ychwaneger Plotiau 3/3ggg, 3/3hhh, 3/3jjj, 3/3kkk, 3/3LLL, 3/3mmm, 3/3nnn, 3/3ppp, 3/3qqq, 3/3rrr, 3/3sss, 3/3ttt, 3/3uuu, 3/3vvv, 3/7, 3/7a, 3/7b, 3/7c a 3/7d at yr GPG. Y lleihad net yn y tir a gaffaelid fyddai 8,144m².

Lleihau'r arwynebedd o dir a glustnodwyd ar gyfer ei adraddoli, ar gais y perchennog. Diwygio perchnogaeth rhai plotiau er budd Mr Gareth a Mrs Audrey Clayton ac addasu'r plotiau i adlewyrchu gwir faint gwyrriad y llwybr ceffylau BW253/N15.

Addasiad 7 – nis defnyddiwyd

Addasiad 8 – GFFY ac GPG

Newidier y manylion yn Atodlen 3 i GFFY er mwyn cywiro gwall argraffu bach, a newidier yr Atodlen i'r GPG i adlewyrchu manylion cyfeiriad cywir tri o'r perchnogion tir, a restrir ar gyfer y buddiannau 2/21, 2/24 a 4/3.

Addasiad 9- GPG

Newidier y modd y rhestrir Plotiau 4/11 a 4/11a yn yr Atodlen, i adlewyrchu mai'r perchnogion cyfredol yw Gweinidogion Cymru. Ni fyddai'r Buddiant 4/6 a'r Plotiau GPG 4/6 a 4/6a yn cael eu defnyddio bellach.

Addasiad 10 – GFFY & GPG

GFFY

Ymgorfforer Mynedfa Breifat 4/14a newydd, yn ymestyn o Lôn Wern Ddu i'r cae OS0900.

GPG

Disodler y Plotiau GPG 4/2c, 4/2k a 4/2t gan Blotiau 4/2LL, 4/2mm, 4/2nn, 4/2pp a 4/2qq. Ni fyddai'n achosi cynnydd net yn arwynebedd y tir a gaffaelir.

Ychwaneger Plot GPG 4/8c (o 21m²) i ddarparu mynedfa fel gwaith gwasanaethu ar dir Mrs Glenys Jarman Jones.

Addasiad 11 – GPG

Lleihaer o 926m² y Plot 4/1a gwreiddiol a chynydder o 926m² y Plot 4/ff gwreiddiol.

Ychwaneger dau blot newydd – Plot Teitl 4/1qq a Phlot Trwydded 4/1rr.

Lleihau o 926m² y caffaeliad tir parhaol oddi ar Mr R E Jones.

ADDASIADAU I'R GORCHMYNION A ARGYMHELLWYD GAN YR AROLYGYDD

Addasiad 12 – GFFY

Ar y Plan 4 GFFY, y fynedfa a ddangosir ar gyfer Mr Jarman i'r Cae P0009 yw'r Fynedfa Breifat 4/9b, sy'n terfynu ar y ffin rhwng Caeau P0009 a P0008. Y tu hwnt i'r pwynt hwnnw mae'r goriwaered yn y Cae P0009 mor serth nes peri bod y fynedfa a gynigir yn GFFY yn anymarferol

Yn absenoldeb unrhyw waith gwasanaethu a gytunwyd yn y Gofrestr Ymrwymiadau (ID 159), dylid addasu Plan y Safle i ddangos estyniad o'r fynedfa hon am bellter tebyg i 40 metr, i gyfeiriad y gogledd yn gyntaf ac yna tua'r dwyrain, i alluogi adeiladu mynedfa a raddolir yn briodol i mewn i'r Cae P0009 (hyn i'w gyflawni fel gwaith gwasanaethu a gytunir).

Yn unol â hyn, gellid cadw'r Plot GPG 4/2u ac ymgymryd â'r darn sy'n weddill o'r fynedfa newydd yn P0009 fel gwaith gwasanaethu angenrheidiol. Cyfeirier at baragraffau 6.15, 8.26 ac 8.27 yn yr adroddiad.

Addasiad 13 – GPG

Ar Ddalen 4 o'r Plan GPG ac yn y manylion ar dudalen 114 o'r Atodlen i GPG, lleihaer maint y Plot GPG 4/4 (4,928 m²) drwy hepgor y darn trionglog o dir sydd ar hyn o bryd yng ngardd gefn Gelli.

Byddai'r triongl, ar ôl adeiladu'r cynllun, yn gorwedd rhwng llinell ffens bresennol rheilffordd y Cambrian, llinell y ffens newydd ar ben trychfa'r ffordd ymyl gyswllt arfaethedig o'r gylchfan newydd yn ôl i'r A483 bresennol i'r Drenewydd, a llinell y ffens ar waelod arglawdd y ffordd osgoi. Byddai'r lleihad hwn yn yr GPG yn ychwanegu at faint y darn o dir sy'n weddill ym mherchnogaeth Mr Peter and Mrs Karen Harris. Ni fyddai angen y darn trionglog ar gyfer adeiladu'r cynllun, nac ar gyfer lliniaru ei effeithiau, byddai ei arwynebedd oddeutu 400 m². Cyfeirier at baragraffau 6.33 ac 8.32 yn yr adroddiad.

Addasiad 14 – GPG

Ar dudalen 98 yn yr Atodlen i GPG, parthed Plot GPG 4/1 etc, newidier enw'r meddiannydd o Mr Dilwyn Richard i Mr Dilwyn Richards.

